

## Datganiad Tâl Blynyddol 2019

### 1 Rhagarweiniad

Dyma'r ail Ddatganiad Tâl blynyddol, ar gyfer 2019. Mae'r Datganiad Tâl hwn yn cynnig y fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â thâl, ac o ran tâl uwch-aelodau staff yn benodol.

### 2 Taliadau uwch-aelodau staff

Mae'r holl uwch-aelodau staff, heblaw am yr Is-Ganghellor, yn cael eu cynnwys ym Mholisi Taliadau Uwch-aelodau Staff y Brifysgol, a gyhoeddir yn flynyddol. Adolygir perfformiad bob dwy flynedd, a chaniateir gwobrau ar sail perfformiad, yn ogystal ag adolygu ecwiti. Defnyddir data o Arolwg Taliadau Uwch-aelodau Staff Cymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau (UCEA) ac Arolwg Russell Reward i roi tystiolaeth am unrhyw addasiadau yn y farchnad.

Y Pwyllgor Taliadau sy'n pennu'r polisi, a gellir dod o hyd i'r cylch gorchwyl yn Ordiniannau'r Brifysgol. Y Pwyllgor Taliadau yw'r corff sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros sut mae'r Brifysgol yn gwneud taliadau i uwch-aelodau staff.

Yn rhan o'r rôl hon, mae'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â chyflogau'r unigolion yn swyddi uchaf y Brifysgol, gan gynnwys yr Is-Ganghellor.

Cyngor y Brifysgol, sef prif awdurdod y Brifysgol, sy'n penodi aelodau'r Pwyllgor Taliadau, ac mae'r Pwyllgor yn atebol i'r Cyngor hwn.

Mae'r pwyllgor yn adolygu ac yn pennu taliadau, buddion ac amodau cyflogaeth y canlynol yn uniongyrchol:

- Is-Ganghellor
- Dirprwy Is-Ganghellor
- Rhag Is-Gangellorion
- Prif Swyddog Gweithredu
- Prif Swyddog Cyllid

Mae'n rhoi awdurdod dirprwyol i Bwyllgor Cyflogau Athrawon ac Uwch-aelodau Staff wneud argymhellion ynglŷn â thâl Athrawon ac uwch-aelodau staff nad ydynt yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol gan y pwyllgor ei hun.

Cyhoeddir nifer y staff sy'n cael eu talu dros £100,000 yn y cyfrifon ariannol, wedi'u rhannu'n fandiau tâl o £10,000. Mae costau uniongyrchol a ad-delir yn uniongyrchol i uwch-aelodau staff sy'n rhan o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol yn cael eu cyhoeddi hefyd. Mae'r holl hawliadau treuliau a thaliadau a wneir i uwch-aelodau y Brifysgol yn cydymffurfio â rheoliadau ariannol y Brifysgol. Mae'r rhain yn berthnasol i'r holl staff ac mae Cyngor y Brifysgol yn eu hadolygu a'u cymeradwyo'n flynyddol.

### 3 Tâl yr Is-Ganghellor

Y Pwyllgor Taliadau, drwy gynllun Gwobrwyo yr Is-Ganghellor, sy'n pennu tâl yr Is-Ganghellor.

Mae'r cynllun wedi'i ddylunio fel cynllun cymhelliant tymor hir i wobrwyo a chadw yr Is-Ganghellor gyda'r nod o gyflawni Strategaeth Y Ffordd Ymlaen 2018-23. Mae'r cynllun yn adeiladu ar egwyddorion proses Adolygu Cyflogau Uwch-aelodau Staff fel yr amlinellir ym Mholisi Taliadau Uwch-aelodau Staff.

Mae Cynllun Gwobrwyo'r Is-Ganghellor yn cynnwys:

- adolygiad blynyddol o gyflog sylfaenol yn unol â'r farchnad;
- cyfandaliad bonws tymor hir nad yw'n bensiynadwy yn seiliedig ar berfformiad sy'n gysylltiedig â llwyddiant Y Ffordd Ymlaen 2018-2023.

Pan fydd y Pwyllgor Taliadau yn adolygu pecyn taliadau'r Is-Ganghellor, mae'n ystyried gwybodaeth gymharol ar gyflogau, budd-daliadau eraill ac amodau gwasanaeth yn y sector prifysgolion ac mewn mannau eraill.

#### **4 Tâl ar gyfer grwpiau eraill o staff**

Mae mwyafrif y staff eraill ar raddfa gyflog Cytundeb y Fframwaith Cenedlaethol (NFA), ac o dan Strwythur Graddio'r Brifysgol sy'n cynnwys 8 gradd. Cefnogir y graddau hyn gan fethodoleg gwerthuso rôl Dadansoddiad Rôl Addysg Uwch HERA.

Mae'r staff sydd ar raddfeydd tâl NFA yn cael codiad cyflog blynyddol sy'n seiliedig ar ddatblygiad sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, tan iddynt gyrraedd brig amrediad craidd y radd. Maent hefyd yn rhwym wrth unrhyw wobrau tâl y cytunir arnynt yn genedlaethol.

Staff clinigol sydd ar y Raddfa Tâl Clinigol, ac mae'n cyfateb i raddfeydd cyflog y GIG. Mae staff clinigol yn cael codiad cyflog blynyddol sy'n seiliedig ar ddatblygiad sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, tan iddynt gyrraedd brig amrediad y radd. Mae ymgynghorwyr clinigol hefyd yn derbyn dyfarniadau ymrwymiad sy'n uwch na phrif amrediad gradd ymgynghorwyr.

Mae'r Cynllun Gwobrau Cyfraniad Rhagorol (OCAS) yn cydnabod perfformiad a chyfraniad eithriadol, gan arwain at wobrau untro, ac unrhyw gynnydd cyflym mewn datblygiad.

#### **5 Cyflogwr Cyflog Byw**

Mae'r Brifysgol yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig ac o ganlyniad, mae'r holl staff yn derbyn o leiaf cyfradd tâl Sefydliad Cyflog Byw.

#### **6 Cymhareb Tâl**

Mae'r cymarebau rhwng cyflog yr Is-Ganghellor a chyflog staff canolrif, ynghyd â thâl cyfan yr Is-Ganghellor a thâl canolrif staff ar y cyfan bellach wedi'u cyhoeddi yn yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ac mae'r un cyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019.

#### **7 Polisi gadael**

Mae'r holl drefniadau setliadau, gan gynnwys diswyddo gwirfoddol, ar gyfer athrawon, cyfarwyddwyr gwasanaethau proffesiynol ac uwch-aelodau staff yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Tâl ddwywaith y flwyddyn, gyda manylion am y taliad diswyddo a'r arbediad i'r Brifysgol. Mae unrhyw ddiswyddiadau sy'n gysylltiedig â staff academiaidd ac uwch-aelodau staff yn amodol ar brosesau diswyddo'r Brifysgol.

#### **8 Materion sy'n codi o gyfarfodydd Pwyllgor Taliadau 2019**

Mae'r canlynol yn drosolwg o faterion a gododd yn ystod 2019.

### **Diweddariad i'r Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth**

Gwnaeth y Pwyllgor dderbyn a chymeradwyo'r diweddariad i'r papur ynghylch y Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth. Anfonir hwn at y Pwyllgor Llywodraethu ac yna'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth derfynol.

### **Adolygiad Cyfyngedig o Gyflogau Uwch-aelodau Staff 2019**

Cyflwynodd yr Is-Ganghellor canlyniadau'r Adolygiad Cyfyngedig o Gyflogau Staff, a gymeradwyodd y Pwyllgor.

### **Adolygiad Cyfyngedig o Gyflogau Uwch-aelodau Staff yn 2019 ar gyfer Adroddiadau Uniongyrchol yr Is-Ganghellor**

Cyflwynodd yr Is-Ganghellor ddiweddariad llafar ar y broses o adolygu cyflogau uwch-aelodau staff ar gyfer ei adroddiadau uniongyrchol, a gymeradwyodd y Pwyllgor. Nodwyd nad oedd y Prif Swyddog Gweithredu yn bresennol ar gyfer trafodaethau ar adroddiadau uniongyrchol yr Is-Ganghellor.

### **Adolygiad Cyfyngedig o Gyflogau Uwch-aelodau Staff yn 2019 ar gyfer yr Is-Ganghellor**

Gwnaeth y pwyllgor dderbyn ac ystyried SSR Cyfyngedig 2019 ar gyfer papur yr Is-Ganghellor, a chymeradwyo'r argymhelliad ynddo ynghylch yr adolygiad masnachol o'i gyflog. Nodwyd nad oedd yr Is-Ganghellor yn bresennol ar gyfer y trafodaethau hyn.